



# Amcan Llesiant 14

## Amgylchedd Iach a Diogel - Hyrwyddo'r iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru

### Dal i wneud cynnydd da o ran hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru


Mae ein hymgyrch i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg wedi cael sylw fel *arfer llwyddiannus* gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Byddwn yn datblygu prosiect digidol '*Stordy Digidol*' i ehangu mynediad i wasanaethau diwylliannol a chasgliadau ein sir. Mae seilwaith y wefan wedi ei gwblhau bellach ac mae'r llyfrgell yn cynnwys rhyw 770 o ddelweddau.

### Pam y mae hyn yn bwysig

- Mae cefnogi a datblygu'r defnydd o'r Gymraeg wedi cael ei nodi fel elfen allweddol wrth ddatblygu natur unigryw ac atyniadol yr ardal o ran twristiaeth, buddsoddi mewn busnes a mynd i'r afael â thlodi gwledig.
- Bydd y penderfyniad gan S4C i adleoli i Gaerfyrddin yn golygu bod y sir yn un arwyddocaol i sector y Diwydiannau Creadigol yng Nghymru. Bydd 'Yr Egin', sef canolfan newydd ar gyfer y cyfryngau a diwylliant ar gampws Caerfyrddin Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, yn cael ei datblygu ac S4C fydd prif denant y safle. Bydd Yr Egin hefyd yn rhagori wrth hyrwyddo Caerfyrddin fel porth i'r 'Fro Gymraeg'.
- Mae gennym hanes da o gefnogi'r celfyddydau, ac rydym wedi bod ar flaen y gad fel un o'r awdurdodau lleol sydd wedi ymrwymo fwyaf i'r celfyddydau yng Nghymru, wrth i ni barhau i werthfawrogi a buddsoddi yn y celfyddydau er gwaethaf her cyni cyllidol a thoriadau mewn arian cyhoeddus.

### Mesurau Llwyddiant



### Egluro'r Canlyniadau

- Yn ôl [Arolwg Cenedlaethol Cymru](#) 2018/19, dywedodd **37.8%** o'r rhai a gymerodd ran eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Mae hyn i lawr ar 2017/18 (43.6%) ond gennym ni y mae'r ganran 4<sup>edd</sup> uchaf yng Nghymru o hyd. Mae'r arolwg hwn yn rhoi syniad da i ni bob blwyddyn am nifer y siaradwyr Cymraeg ond er bod y wybodaeth braidd yn hen bellach, mae Cyfrifiad 2011 yn rhoi ffigur cywirach i ni o 43.9%, gyda'r nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg, sef ychydig dros 78,000.
- Rhaid i bob dysgwr yn ei flwyddyn olaf yn y Cyfnod Sylfaen gael ei asesu drwy asesiadau athro. Cafodd 53.5% o'n disgyblion Cyfnod Sylfaen asesiad athro yn y Gymraeg, sydd ychydig yn is na'r flwyddyn flaenorol.
- Yn ôl [Arolwg Cenedlaethol Cymru](#) roedd nifer y cyfranogwyr at yr arolwg wnaeth fynychu digwyddiad ym myd y celfyddydau ac ymweld ag amgueddfa yng Nghymru yn ystod 2017/18 wedi gostwng ychydig sef 67.4% a 34.6%, ac mae'r rhain yn is na ffigurau cyfartalog Cymru o 68% a 40.4%. Roedd y nifer oedd wedi ymweld â safleoedd treftadaeth wedi cynyddu ychydig i 64.7%, ac mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru o 63.4%. Noder bod y cwestiynau'n gofyn a oeddent wedi bod yn y safleoedd hyn yng Nghymru, ac nid yn Sir Gaerfyrddin o reidrwydd.

## Y cynnydd a wnaed

- ⦿ Mae gan ein camau i hyrwyddo'r Strategaeth ar gyfer y Gymraeg gysylltiad agos â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a phrosiectau megis Cymraeg i Blant, sy'n cael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru. Rydym wedi paratoi adnoddau i egluro manteision addysg ddwyieithog a byddwn yn parhau i gefnogi gweithrediad Cynllun Strategol y Gymraeg ledled y sir.
- ⦿ Ym mis Gorffennaf 2018 cyhoeddwyd **Strategaeth Gelfyddydau Sir Gaerfyrddin** gennym sy'n pennu 4 Blaenoriaeth Strategol ac iddynt gynlluniau gweithredu manwl a Cherrig Milltir allweddol i'w chefnogi.
- ⦿ Mae Theatrau Sir Gâr wedi gweld cynnydd o 39% mewn gwerthiant tocynnau a chynnydd o 42% mewn incwm yn ystod 2018/19.
- ⦿ Fe'n gwahoddiwyd i gefnogi Cyngor Celfyddydau Cymru i ddatblygu menter strategol newydd i fynd i'r afael â'r diffyg datblygu theatr Gymraeg, ac i roi sylw i'r diffyg cysylltiad rhwng y gwaith Cymraeg sydd wedi cael ei greu a beth mae cynulleidfaoedd am ei weld.
- ⦿ I wella Cymraeg y staff, yn ystod 2018/19 bu i 223 o staff ddilyn cyrsiau hyfforddiant, a bu i 91 gwblhau cyrsiau e-ddysgu. Yn yr Archwiliad Sgiliau Iaith Blynyddol, gwelwyd gwelliant ar bob lefel - e.e. roedd nifer y staff heb unrhyw sgiliau Cymraeg llafar wedi gostwng o 15% i 11%. Gweler Adroddiad yr iaith Gymraeg - (dolen gyswllt i'w hychwanegu)

## Cynnyddu HYDER ein staff i ddefnyddio'r Gymraeg



Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol  
dros y Gymraeg, Diwylliant a Thwristiaeth:  
**Y Cyngorydd Peter Hughes Griffiths**



Cliciwch yma i gael gweld ein  
**[cynnydd manwl](#)** o ran yr amcan  
hwn.